




Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol: Cyrff Cyfiawnder – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5



Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Methodoleg	2
3	Canfyddiadau	3
4	Tueddiadau	7
5	Casgliadau ac Argymhellion	10
	Atodiadau	11


1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau ein [Cynllun Strategol](#) a'r [Deilliannau Rheoleiddio](#) a gyhoeddwyd yn 2024-2025..
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer pob sefydliad eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith bod arferion sefydliadau yn y maes hwn wedi esblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda defnydd cynyddol o amrywiaeth o blatfformau.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd gyda sefydliadau yn y sector cyfiawnder sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5. Mae hefyd yn cyflwyno argymhellion i'w hystyried, gyda'r nod o sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad.
- 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yn cael eu trafod gyda phob sefydliad oedd yn rhan o'r gwaith arolygu er mwyn cynnig adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.
- 1.8 Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5.

2 Methodoleg

- 2.1 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5 yn cynnwys dwy safon sy'n cyfeirio at ddefnydd sefydliadau o'r cyfryngau cymdeithasol.
- 2.2 Mae Safon 55 yn nodi: 'Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.
- 2.3 Mae Safon 56 yn cyfeirio at ymateb i bobl ar y cyfryngau cymdeithasol: 'Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb)'.
- 2.4 Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â safon 55.
- 2.5 Yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst 2025, arolygwyd pump sefydliad sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5.
- 2.6 Gwiriwyd cyfrifon y sefydliadau ar y platfformau Facebook, X, Instagram a LinkedIn. Ar gyfer dau sefydliad, dim ond cyfrifon LinkedIn ac Instagram a gafodd eu gwirio, gan fod canlyniadau arolygon blaenorol wedi dangos lefel uchel o sicrwydd o ran cydymffurfiaeth â'r safonau wrth ddefnyddio platfformau Facebook ac X.
- 2.7 Gwiriwyd hyd at ddeg neges ar gyfer pob un o'r platfformau uchod. Fel rhan o'r arolwg gwiriwyd 142 neges ar draws y platfformau, gan ystyried y meini prawf canlynol:
 - A oedd y neges ar gael yn Gymraeg?
 - A oedd y neges yn cydymffurfio â gofynion safonau sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol?
 - A oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- 2.8 Yn ogystal, gwiriwyd cydymffurfiaeth â safon 80 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol. Mae safon 80 yn nodi: 'Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.


3 Canfyddiadau



3.1 Dyma ganlyniadau'r negeseuon a wiriwyd fel rhan o'r gwaith arolygu:

- Cyfanswm negeseuon a ddadansoddwyd: 142
- Nifer y negeseuon ar gael yn Gymraeg 121 (85%)
- Nifer y negeseuon yn cydymffurfio'n llawn: 120 (84.5%)
- Nifer y negeseuon yn cydymffurfio'n rhannol: 10 (7%)
- Nifer y negeseuon nad oedd yn cydymffurfio: 12 (8.5%)
- Nifer y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg 53 (37%)

3.2 Dangosodd ein gwaith arolygu yn 2024-25, y bu cynnydd yng nghydymffurfiaeth sefydliadau Rheoliadau Rhif 5 gan godi o 43% yn 2023-24 i 72%. Mae'n galonogol nodi felly bod lefel cydymffurfiaeth yn parhau i wella gan godi i 84.5% eleni.




- 3.3 Gan edrych ar y platfformau yn unigol, gwelwyd bod 96% o'r negeseuon ar X yn cydymffurfio â safon 55. Roedd 84% o'r negeseuon ar Instagram yn cydymffurfio tra bod 80% o negeseuon Facebook yn cydymffurfio. 79% o'r negeseuon ar LinkedIn oedd yn cydymffurfio yn llawn â gofynion safon 55.

Trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 3.4 O'r negeseuon a wiriwyd, roedd 37% yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y methiant hwn yn sgil amryw o ffactorau.
- 3.5 Roedd nifer o sefydliadau'n defnyddio hashnodau fel rhan o'u negeseuon. Nodwyd rhai achosion lle nad oedd hashnodau'n rhan o'r testun Cymraeg, ac roeddent ar gael yn Saesneg yn unig. Hefyd, cafwyd enghreifftiau lle'r oedd dolenni i wefannau neu gyfrifon allanol wedi'u cynnwys yn y fersiwn Saesneg o'r neges ond heb eu cynnwys yn y fersiwn Gymraeg, neu lle'r oedd y dolenni'n arwain at gynnwys Saesneg er bod cynnwys Cymraeg ar gael. Wrth gynnwys dolenni allanol, dylid sicrhau eu bod yn arwain at gynnwys Cymraeg pan fo hynny ar gael, er mwyn osgoi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.6 Gwelwyd enghreifftiau mewn negeseuon dwyieithog lle bo'r testun Cymraeg wedi ei osod o dan y testun Saesneg. Ar sawl un o'r platfformau hyn, mae hynny'n golygu nad oedd y Gymraeg yr un mor hygyrch a gweladwy ar nifer o negeseuon oedd wedi eu postio yn ddwyieithog fel yn yr enghreifftiau isod:





3.7 Gwelwyd bod 8.5% o'r negeseuon a wiriwyd yn methu cydymffurfio â'r gofynion.

Fideos a chlipiau sain

- 3.8 Roedd 36 o'r negeseuon a wiriwyd ar draws y 4 platfform yn cynnwys fideos neu glipiau sain yn rhan o'r neges.
- 3.9 Roedd 55% o'r fideos a chlipiau sain a wiriwyd ar gael yn Gymraeg yn llawn, tra bod 17% yn fideos Saesneg gydag is-deitlau Cymraeg.

Hunaniaeth gorfforaethol

- 3.10 Mae'r modd y mae'r sefydliadau yn cyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol yn amrywio.
- 3.11 Roedd 60% o'r cyfrifon a wiriwyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol. Nid oedd yr un o'r cyfrifon dwyieithog yn cydymffurfio â gofynion safon 80.
- 3.12 Gwelwyd enghreifftiau lle'r oedd logo, enw neu "*handle*" y cyfrif yn uniaith Saesneg, a'r wybodaeth yn y proffil yn uniaith Saesneg neu'n cynnwys llai o wybodaeth yn Gymraeg nac yn y testun cyfatebol Saesneg. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o gyfyngu ar hyd y testun y gellir ei gynnwys yn adran proffil y cyfrifon hyn. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu'r angen i ystyried y Gymraeg yn llawn wrth greu cyfrifon a llunio testun proffil, er mwyn sicrhau bod modd cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn Gymraeg.


Codi ymwybyddiaeth o gyfrifon Cymraeg

- 3.13 O'r cyfrifon a wiriwyd, roedd 60% yn gyfrifon dwyieithog tra bod 40% yn gyfrifon penodol Cymraeg (gyda chyfrif cyfatebol Saesneg ar wahân).

3.14 Mae safon 78 yn datgan –

‘Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu’r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg’.

3.15 O’r chwe chyfrif oedd yn rhai penodol Cymraeg, dim ond 50% oedd yn cynnwys dolen o’r cyfrif Cymraeg i’r cyfrif cyfatebol Saesneg.



3.16 Roedd pob cyfrif Saesneg penodol ar Instagram a LinkedIn yn cynnwys dolenni i’r cyfrifon cyfatebol Cymraeg. Roedd 50% o’r cyfrifon ar X yn cynnwys dolen o’r cyfrif Saesneg i’r Gymraeg. Nid oedd yr un cyfrif ar Facebook yn cynnwys dolen o’r cyfrif Saesneg i’r cyfrif Cymraeg.

3.17 Mae ein Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau’r Gymraeg Rhif 1 yn nodi –

“Os yw corff yn penderfynu gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid iddo godi ymwybyddiaeth o’r cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol yn unol â safonau 78 ac 79. Gall hyn gynnwys corff yn darparu dolen uniongyrchol at y cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol”.

3.18 Mae’r heriau hyn yn codi cwestiynau ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau â safonau’r Gymraeg, yn enwedig o ran sut maent yn sicrhau bod eu cynnwys digidol yn hygyrch ac yn gyfartal rhwng y ddwy iaith. Yn aml, bydd y neges Saesneg yn cael ei chyhoeddi, gyda chyfieithiad Cymraeg sy’n cynnwys dolenni at dudalennau neu wybodaeth yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn awgrymu diffyg ystyriaeth wrth baratoi’r neges yn ei chyfanrwydd, gan ddibynnu ar gyfieithu’r testun yn unig, heb ystyried y dolenni a’r cynnwys ategol sy’n rhan o’r neges.

4 Tueddiadau

- 4.1 Nododd ein hadroddiad, [*Grymuso'r Gymraeg Drwy Lywodraethiant Cadarn*](#), bod sefydliadau yn perfformio'n dda ar y cyfan o safbwynt cydymffurfiaeth wrth bostio ar gyfryngau cymdeithasol. Yn 2024-25, roedd cyrff Rheoliadau Rhif 5 yn cyrraedd lefel cydymffurfiaeth o 72%. Fel nodwyd uchod, mae canfyddiadau'r gwaith gwirio eleni yn dangos cynnydd i 84.5%, sy'n galonogol.
- 4.2 Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae rhai heriau'n parhau, yn enwedig o ran sicrhau hygyrchedd y Gymraeg, cynhyrchu fideos yn Gymraeg, a chynnal cysondeb rhwng negeseuon Cymraeg a Saesneg.

Defnydd y sector o'r platfformau

- 4.3 Mae'r sefydliadau dan sylw yn defnyddio amrywiaeth o blatfformau cyfryngau cymdeithasol, gyda Facebook a X (Twitter) yn parhau i fod ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd. Mae Instagram yn cynyddu mewn poblogrwydd, ond mae tueddiadau'r gwaith gwirio'n awgrymu bod y sefydliadau a wiriwyd yn defnyddio LinkedIn yn llai aml na'r platfformau eraill.
- 4.4 Mae'n amlwg bod rhai sefydliadau'n defnyddio gwahanol blatfformau ar gyfer gwahanol ddibenion. Er enghraifft, defnyddir LinkedIn yn benodol gan rai sefydliadau i hyrwyddo swyddi gwag neu i annog pobl i ystyried gyrfa gyda'r sefydliad.
- 4.5 Mae'r lluoedd heddlu'n tueddu i ddefnyddio Facebook ac X ar gyfer rhannu diweddariadau mewn achosion o argyfwng, tra bod Instagram yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i hyrwyddo gwasanaethau neu ddigwyddiadau a drefnir neu a fynyichir gan y sefydliadau, e.e. digwyddiadau Mis Balchder (Pride) neu ddiwrnodau agored.
- 4.6 Mae'r defnydd o gyfrifon dwyieithog yn gyffredin, er bod rhai sefydliadau'n gweithredu cyfrifon ar wahân ar gyfer y ddwy iaith. Er bod rhan helaeth y negeseuon yn ddwyieithog, ceir ambell enghraifft lle'r oedd y neges Saesneg yn cynnwys mwy o wybodaeth na'r neges Gymraeg. Mae hyn i'w weld mewn negeseuon dwyieithog gan amlaf yn hytrach nag mewn negeseuon ar wahân. Pan nad yw'r un wybodaeth ar gael yn Gymraeg, ystyrir bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac felly'n methu â chydymffurfio â'r safonau.

Fideos

- 4.7 Roedd 28% o'r fideos a wiriwyd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y sefydliadau yn uniaith Saesneg. Roedd 17% o'r fideos yn Saesneg gydag is-deitlau Cymraeg.
- 4.8 Mae safon 35 yn datgan –

“Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.”

- 4.9 Mae ein Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn nodi y gall y defnydd o isdeitlau a throslys dros glipiau Saesneg arwain at y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.10 Rydym yn cydnabod y gall sicrhau siaradwyr Cymraeg ar bob achlysur fod yn heriol, ac mewn rhai amgylchiadau efallai nad yw hynny'n rhesymol nac yn ymarferol – er enghraifft, lle ystyrir bod angen person penodol nad yw'n medru'r Gymraeg er mwyn cyfleu neges yn uniongyrchol. Serch hynny, disgwylir i sefydliadau wneud ymdrechion rhesymol i ddefnyddio siaradwyr Cymraeg lle bo hynny'n bosib, ac i gyhoeddi fideos yn Gymraeg pan fo modd.
- 4.11 Er bod natur rhai fideos yn benodol ac arbenigol iawn eu cynnwys, gwelwyd ambell i enghraifft lle bo sefydliad wedi llwyddo i gyhoeddi fideo yn Gymraeg yn llwyddiannus. Gwelwyd hefyd enghreifftiau o sefydliadau yn cyhoeddi fideos heb ddeialog gyda thestun yn Gymraeg (neu'n ddwyieithog) yn rhan o'r fideos. Ystyrir bod hyn yn ddull ymarferol ac effeithiol o sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn hygyrch, yn enwedig mewn achosion lle gallai defnyddio siaradwyr Cymraeg fod yn anodd.

Diffyg dolenni rhwng cyfrifon Cymraeg a Saesneg

- 4.12 Nid yw pob sefydliad yn sicrhau bod dolennau o'r cyfrif Saesneg i'r cyfrif Cymraeg er mwyn hyrwyddo'r cyfrif Cymraeg. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i gyflwyno dolennau at y dudalen gyffelyb Gymraeg ar y platfformau lle mae dwy sianel iaith er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth Cymraeg yn unol â gofynion safon 80.

Gwallau ieithyddol

- 4.13 Ceir achosion o wallau gramadegol neu derminoleg amhriodol yn y cynnwys Cymraeg wrth gymharu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg. Eithriadau oedd rhain ond mae'n atgyfnerthu'r neges y dylid gwirio'r negeseuon yma cyn eu cyhoeddi i sicrhau cywirdeb a chysondeb.

Diffyg strategaeth weledol ddwyieithog

- 4.14 Gwelwyd enghreifftiau o negeseuon oedd yn cynnwys infograffeg a/neu fideos lle'r oedd y testun yn Saesneg yn unig.
- 4.15 Mae'r cyfrifon sy'n blaenoriaethu'r Gymraeg wrth bostio yn tueddu i ddangos dealltwriaeth well o ofynion y Safonau, yn ogystal â'r egwyddorion a nodir yn y cod ymarfer. Mae'r flaenoriaeth ieithyddol hon yn adlewyrchu ymrwymiad i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn cyfathrebu digidol.
- 4.16 Mae rhai sefydliadau'n darparu negeseuon dwyieithog, gan sicrhau bod y cynnwys ar gael yn y ddwy iaith heb gyfaddawd ar ansawdd na chywirdeb y Gymraeg. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Safonau ac yn hwyluso mynediad cyfartal at wybodaeth.
- 4.17 Mae defnydd penodol o gyfrifon Cymraeg ar blatfformau megis Facebook ac X, ynghyd â dolennau priodol o dudalennau Saesneg i'r rhai cyfatebol yn Gymraeg, yn dangos ymdrechion i greu profiad defnyddiwr cydlynol a dwyieithog. Serch hynny, nodwyd bod anghysondeb ymysg sefydliadau wrth weithredu'r dull hwn.

Triniaeth y Gymraeg

- 4.18 Mae'r mwyafrif o'r negeseuon a wiriwyd ar draws y platfformau yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r gofynion. Fodd bynnag, mae achosion o gydymffurfiaeth rhannol a diffyg cydymffurfiaeth yn parhau i fod yn bresennol, yn enwedig mewn perthynas ag infograffeg a fideos uniaith Saesneg.

5 Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Ar sail yr arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol, gellir dod i'r casgliad bod lefel gyffredinol y cydymffurfiaeth yn gadarnhaol ac wedi gwella ers cynnal yr arolygon yn 2024-25. Er mai sampl gymharol fach o sefydliadau a arolygwyd, gwiriwyd dau blatfform am y tro cyntaf eleni. Mae'r canlyniadau yn galonogol, ond yn amlygu meysydd lle mae angen gwelliant pellach i sicrhau cydymffurfiaeth lawn wrth bostio ar draws y cyfryngau cymdeithasol.
- 5.2 Er bod nifer sylweddol o'r negeseuon yn cydymffurfio'n llawn â'r dyletswyddau, ceir achosion o gydymffurfiaeth rhannol a diffyg cydymffurfiaeth, yn enwedig mewn perthynas â chynhyrchu fideos uniaith Saesneg.
- 5.3 Rhaid i sefydliadau sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hygyrch yn y ddwy iaith. Dylent barhau i wella eu dulliau cyfathrebu er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safonau, gan gynnwys cynllunio gwell o flaen llaw i sicrhau bod y cynnwys ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar bob achlysur.
- 5.4 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5:

Argymhelliad 1: Trefniadau goruchwyllo

Dylai sefydliadau gryfhau eu prosesau hunanreoleiddio drwy sicrhau bod bob cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol. Mae hyn yn golygu darparu arweiniad clir i staff sy'n postio, monitro cynnwys yn rheolaidd, a sicrhau cysondeb ieithyddol a safon uchel o gyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Argymhelliad 2: Cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon

Dylai sefydliadau fabwysiadu polisi postio dwyieithog cyson, gan sicrhau bod pob neges yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd, heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai sefydliadau gynnwys y Gymraeg yn y graffeg, delweddau a fideos er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth weledol y sefydliad.

Argymhelliad 3: Fideos

Dylai sefydliadau archwilio dulliau amgen o gyhoeddi fideos yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o fewn y cynnwys fideo, lle bo hynny'n ymarferol bosib.

Argymhelliad 4: Hyrwyddo cyfrifon Cymraeg

Dylai sefydliadau hyrwyddo eu cyfrifon Cymraeg drwy gyfeirio defnyddwyr atynt gan ddefnyddio dolenni amlwg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol.

Argymhelliad 5: Rhannu negeseuon gan gyrrff allanol

Wrth rannu cynnwys gan gyrrff eraill, dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn rhannu'r fersiwn Gymraeg lle bo un ar gael.

Atodiadau

Atodiad 1: Data'r arolwg

	Is-gyfrif adrannol Facebook	Is-gyfrif adrannol X	Instagram corfforaethol	LinkedIn corfforaethol	Cyfanswm a chanrannau
Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform	3	3	5	4	15
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Cymraeg ar wahân	2 (66%)	2 (66%)	1 (20%)	1 (25%)	6 (40%)
Nifer a % y sefydliadau a chyfrif dwyieithog	1 (33%)	1 (33%)	4 (80%)	3 (75%)	9 (60%)
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Saesneg yn unig	0	0	0	0	0
Nifer a % y sefydliadau oedd yn cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol	2 (66%)	2 (66%)	1 (20%)	1 (25%)	6 (40%)
Nifer y negeseuon a wiriwyd	30	28	50	34	142
Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn gwbl Gymraeg	25 (83%)	27 (96%)	42 (84%)	27 (79%)	121 (85%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn llawn	24 (80%)	27 (96%)	42 (84%)	27 (79%)	120 (84.5%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn rhannol	2 (7%)	0	5 (10%)	3 (9%)	10 (7%)

Nifer y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	12 (40%)	1 (4%)	24 (48%)	16 (47%)	53 (37%)
--	-------------	-----------	-------------	-------------	-------------

Atodiad 2: Fideos (arweiniad)

Ydi clip fideo sy'n cynnwys isdeitlau neu droslais Cymraeg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Mae hyn yn dibynnu ar natur a chynnwys y clip dan sylw. Nodir enghraifft o ddwy sefyllfa bosibl yma.

Clip fideo sy'n cynnwys troslais, lle mae geiriau yn cael eu hadrodd dros luniau

Mewn clip fel hwn, mae'r geiriau yn cael eu siarad gan berson tra mae lluniau o rhywbeth arall i'w gweld (hynny yw, nid yw'r person i'w weld). Os yw'r corff yn cynhyrchu clip fideo sy'n cynnwys troslais, a bod y clip fideo yn cael ei ddefnyddio fel fersiwn Gymraeg y clip fideo, gall y corff drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg trwy:

- defnyddio is-deitlau Cymraeg yn hytrach na throslais Cymraeg ar y clip fideo hwnnw; a / neu
- defnyddio troslais Saesneg yn hytrach na throslais Cymraeg ar y clip fideo hwnnw.

Clip fideo sy'n dangos person y gellir ei weld yn siarad

Mewn clip fel hwn, mae person yn cael ei weld yn siarad ac yn mynegi sylwadau/barn am eu profiadau personol.

Os yw'r corff yn cynhyrchu clip o'r fath sy'n dangos person yn siarad, a bod y clip fideo yn cael ei ddefnyddio fel fersiwn Gymraeg y clip fideo, os yw'r fideo yn cynnwys cyfraniad Saesneg gan siaradwr nad yw'n Gymraeg, efallai na fydd defnyddio is-deitlau Cymraeg yn trin Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg os:

- ni all unrhyw berson arall wneud cyfraniad cyfatebol i'r cyfraniad hwnnw yn Gymraeg;
- ni fyddai'n ymarferol cynnwys troslais Cymraeg ar gyfer y cyfraniad; a
- mae cyfraniadau a wneir yn Gymraeg fel arfer yn cael eu hisdeitlo yn Saesneg (yn hytrach na chael eu trosleisio yn Saesneg).

Atodiad 3: Rhestr sefydliadau a'r platfformau a wiriwyd

Sefydliad	Platfformau a wiriwyd
Prif Gwnstabl Heddlu Gwent	Facebook X Instagram LinkedIn
Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru	Facebook X Instagram LinkedIn
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent	Facebook X Instagram (Dim cyfrif ar LinkedIn)
Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys	Instagram LinkedIn
Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru	Instagram LinkedIn